**Y PWYLLGOR LLYWODRAETH LEOL A THAI**

**NEWIDIADAU I DREFNIADAU ADNEWYDDU YN Y SECTOR PREIFAT –**

**GORCHYMYN DIWYGIO RHEOLIADOL**

**Diben**

1. Nodi a thrafod newidiadau sydd ar droed i drefniadau adnewyddu yn y sector preifat.

**Crynodeb**

2. Bwriedir newid y trefniadau presennol ar gyfer grantiau adnewyddu tai, a bydd mwy o hyblygrwydd gan yr awdurdodau lleol i ddatblygu atebion strategol i faterion tai yn unol â'r pwysau a'r blaenoriaethau yn lleol. Diddymir llawer o'r rhagnodi presennol, a bydd gan yr awdurdodau ystod ehangach o gyfleoedd i gynnig cymorth. Gallai'r cymorth hwnnw fod ar ffurf grantiau, benthyciadau, prynu cartrefi yn lle'r rhai presennol, a datblygu atebion strategol cydlynus er mwyn mynd i'r afael â phroblemau tai.

**Amseru**

3. Mae'r trefniadau newydd yn cael eu cyflwyno trwy gyfrwng Gorchymyn Diwygio Rheoliadol, ac mae'r Senedd yn craffu arno ar hyn o bryd. Bydd y cynigion wedi dod at ddiwedd cam cyntaf proses graffu'r Senedd gyda hyn, ac mae, felly, yn amser da i'r Pwyllgor drafod y

newidiadau cyn y ddadl yn y Cyfarfod Llawn ar 16 Ebrill 2002.

**Y Cefndir**

4. Mae’r system bresennol ar gyfer grantiau adnewyddu yn un benodol iawn ac yn fwyfwy, mae wedi cyfyngu ar allu’r awdurdodau lleol i ddatblygu atebion strategol er mwyn mynd i’r afael â materion tai lleol mewn ffordd gynhwysfawr. Bydd y trefniadau newydd yn rhoi’r hyblygrwydd hwnnw i’r awdurdodau.

5. Mae’r trefniadau newydd yn gydnaws â fframwaith Strategaeth Dai Genedlaethol y Cynulliad i Gymru: "Cartrefi Gwell i Bobl Cymru", ac ar ôl ymgynghori eang y llynedd, gwelwyd bod cefnogaeth frwd iddynt. Mater o ddadreoleiddio yw’r newidiadau hyn yn bennaf, ac maent yn cael eu cyflwyno trwy ddefnyddio Gorchymyn Diwygio Rheoliadol o dan Deddf Diwygio Rheoliadol 2001.

**Y Prif Gynigion**

6. O dan y trefniadau newydd, yn lle’r ystod presennol o grantiau, bydd gan yr awdurdodau lleol ber cyffredinol ac eang i roi cymorth er mwyn gwella amodau byw yn eu hardal. Yn lle’r grantiau adnewyddu presennol, grantiau ar gyfer tai mewn aml-ddeiliadaeth, ar gyfer atgyweirio grp, rhannau cyffredin a chymorth trwsio cartref, bydd gan yr awdurdodau ber newydd i roi grantiau a benthyciadau ar gyfer cael gafael ar lety; addasu, gwella neu atgyweirio llety; dymchwel

a chael llety yn ei le.

7. Bydd y per newydd cyffredinol hefyd yn golygu y bydd yr awdurdodau lleol yn dal i gael rhoi cymorth grant dewisol i bobl anabl, er nad yw’r newidiadau’n effeithio ar Grantiau Gorfodol Cyfleusterau i’r Anabl, a fydd yn parhau i fod ar gael.

8. Ni fydd y ddeddfwriaeth sy’n ymwneud ag Ardaloedd Adnewyddu yn newid, ond bydd y newidiadau arfaethedig yn rhoi mwy o hyblygrwydd a dewis i’r awdurdodau ynghylch sut y gallant ddatgan bod ardal yn ardal adnewyddu, ac ymhle y gellir gwneud hynny.

9. Er y bydd cryn dipyn yn llai o ragnodi a rheoleiddio, bydd dyletswydd statudol ar yr awdurdodau lleol o hyd i gyhoeddi polisi adnewyddu tai sy’n dangos yn glir sut y maent yn bwriadu cynnig cymorth yn lleol. Ni fyddant yn gallu cyflwyno’r trefniadau newydd nes iddynt gyhoeddi polisi o’r fath.

**Canllawiau**

10. Bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cyhoeddi canllawiau manwl i’r awdurdodau lleol, a fydd yn nodi’r prif egwyddorion, ac a fydd hefyd yn tynnu sylw at faterion megis Gwerth Gorau, ac osgoi twyll etc. Bydd y canllawiau’n pwysleisio hefyd pa mor bwysig yw hi fod yr awdurdodau lleol yn sicrhau bod eu polisïau’n deg, yn rhoi blaenoriaeth i deuluoedd hawdd eu niweidio, bod pobl sy’n gwneud cais am fenthyciadau’n cael y cyngor priodol, a bod yr awdurdodau’n realistig wrth ystyried gallu pobl i gyfrannu.

11. Ar yr amod bod y Senedd a’r Cynulliad yn eu cymeradwyo, disgwylir y

bydd y trefniadau newydd yn eu lle erbyn mis Mai/Mehefin 2002. Bydd cyfnod trosiannol o 12 mis er mwyn i'r awdurdodau fedru datblygu eu polisïau newydd. Yn ystod y cyfnod hwnnw, bydd y system grantiau bresennol yn parhau, ond rhaid i bob awdurdod gyhoeddi polisi cyn pen y 12 mis.

**Cydymffurfio**

12. Bydd gofyn dadreoleiddio'r trefniadau presennol er mwyn cyflwyno'r newidiadau. Gwneir hynny trwy ddefnyddio Gorchymyn Diwygio Rheoliadol o dan Ddeddf Diwygio Rheoliadol 2001. Ymgynghorwyd yn eang ar y cynigion eisoes. Bydd yn rhaid i'r trefniadau yn y Gorchymyn Diwygio Rheoliadol fynd trwy'r broses graffu yn y Senedd, a bydd gofyn i'r Cynulliad gytuno arnynt. Gosodwyd y cynigion ar gyfer y Gorchymyn Diwygio Rheoliadol gerbron y Senedd ar 13 Rhagfyr 2001, a bydd y Cynulliad yn eu trafod ar 16 Ebrill 2002.

**Goblygiadau Ariannol**

13. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol ychwanegol i'r Llywodraeth Cynulliad Cymru. Bydd y newidiadau'n rhoi mwy o hyblygrwydd i'r awdurdodau lleol dargedu'n well a datblygu dull mwy strategol o weithredu mewn perthynas ag adnewyddu. Bydd yr holl wariant cyfalaf yn dod o dan y ddarpariaeth yn y gyllideb, neu o dan y ddarpariaeth ddangosol arfaethedig.

**Themâu Trawsbynciol**

14. Bydd y trefniadau newydd yn ategu'r agenda gyfredol ar gyfer Moderneiddio Llywodraeth Leol, a bydd yn pwysleisio'r pwysigrwydd

sy’n cael ei roi ar ddarparu llety mwy iach a diogel ar gyfer pob hn a phobl anabl. Bydd hefyd yn cyfrannu at flaenoriaethau’r Cynulliad yn ‘Gwell Iechyd Gwell Cymru’, ‘Cynllun i Gymru 2001’ ar gyfer gwella ansawdd bywyd, ynghyd â Strategaeth Dai Genedlaethol y Cynulliad ‘Cartrefi Gwell i Bobl Cymru’.

**Camau i’w Cymryd gan y Pwyllgor Pwnc**

15. Gofynnir i’r Pwyllgor nodi a thrafod y trefniadau newydd ar gyfer adnewyddu yn y sector preifat.

**Mawrth 2002**

**Y Gangen Adnewyddu yn y Sector Preifat**

**Y Gyfarwyddiaeth Dai**